YSGOL BRYNREFAIL

YR WYTHNOS TRAWSGWRICWLAIDD

DYN A'I AMGYLCHFYD – YR ADRAN SAESNEG

Fe ddechreuodd ein diwrnod yn y Galeri ac arddangosfa o waith Joe Roberts a'i gerfluniau wedi ei llunio o gopr, coed, haearn a dur a'r disgyblion oll wedi rhyfeddu ar ei grefft ac yn llawn brwdfrydedd i drin a thrafod y rhesymau a'r ysbrydoliaeth ysgogodd y cerflunydd.

Cerdded oddi yna hyd yr orsaf yng Nghaernarfon a dal y trên i deithio i Feddgelert. Yr oedd digon o esiamplau ar y siwrne sut oedd gwaith dyn yn cilio yn ôl at natur ar ddiwedd ei ddefnydd- hen dryciau haearn yn rhydu yng ngorsaf Dinas , hen fythynnod a'u welydd nawr yn deilchion a gwyfyn yn tyfu drwyddynt.

O gyrraedd Beddgelert yr oedd, wrth gwrs, amser i gerdded hyd at y bedd a rhyfeddu yn hanes y ci dewr. Clodfori bod cymaint o waed di cael ei ollwng yn y frwydr a'r plasdy di orchuddio mewn coch - wel yn ôl hanes yr athrawon Adran Saesneg beth bynnag !!!